Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Cyngor Sir Fynwy
# Arolygiad Gwerthuso Perfformiad Gwasanaethau Plant

Chwefror 2024

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

© Hawlfraint y Goron 2024
WG49881 ISBN Digidol 978-1-83577-990-3

**Cyflwyniad**

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) arolygiad gwerthuso perfformiad o Wasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Fynwy (y Cyngor/yr awdurdod lleol) ym mis Chwefror 2024. Arolygiad o'r gwasanaethau plant yn unig oedd hwn gan fod y gwasanaethau oedolion wedi cael eu harolygu ym mis Gorffennaf 2022. Diben yr arolygiad hwn oedd adolygu perfformiad yr awdurdod lleol wrth gyflawni dyletswyddau a swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn unol â'r ddeddfwriaeth, ar ran Gweinidogion Cymru. Gwnaethom geisio ateb y cwestiynau canlynol yn unol ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014).

**1. Pobl – llais a rheolaeth**

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod pob unigolyn yn bartner cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros ei fywyd ac sy'n gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddo?

I ba raddau y mae gweithwyr proffesiynol yn sicrhau y caiff profiadau bywyd plant a'u hanghenion unigol eu deall a'u cynnwys wrth wneud penderfyniadau?

**2. Atal**

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau y caiff yr angen am ofal a chymorth ei leihau i'r eithaf ac y caiff anghenion eu hatal rhag dwysáu, gan sicrhau y cyflawnir y canlyniadau gorau posibl i bobl?

I ba raddau y mae arweinwyr a rheolwyr yn deall profiadau'r plant a'r teuluoedd y mae angen cymorth ac amddiffyniad arnynt?

**3. Llesiant**

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau y caiff plant eu hamddiffyn a'u diogelu rhag camdriniaeth, esgeulustod ac unrhyw fathau eraill o niwed?

A yw'r plant yn cael yr help a'r amddiffyniad cywir o ganlyniad i gymhwyso'r trothwyon priodol a rhannu gwybodaeth yn effeithiol?

**4. Partneriaethau**

I ba raddau y gall yr awdurdod lleol fodloni ei hun bod partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a chyflawni canlyniadau cynaliadwy, o ansawdd uchel a chwbl integredig i bobl?

I ba raddau y caiff plant eu cefnogi a'u hamddiffyn drwy drefniadau amlasiantaeth effeithiol?

Roedd cwmpas yr arolygiad yn cynnwys:

- gwerthuso profiad plant ar adeg yr arolygiad gwerthuso perfformiad
- gwerthuso profiad pobl a'r canlyniadau y maent yn eu cyflawni drwy eu cysylltiad â gwasanaethau
- tystiolaeth o'r gwersi a ddysgwyd gan yr awdurdod lleol a'i bartneriaid o'u profiadau diweddar a chamau a gymerwyd/cynlluniau i ddatblygu a gwella gwasanaethau
- ystyried sut mae'r awdurdod lleol yn rheoli cyfleoedd a risgiau wrth gynllunio a darparu gofal cymdeithasol ar lefelau unigol, gweithredol a strategol

## 1. Crynodeb

1.1 Mae arweinwyr a staff y Cyngor yn falch o'r gwasanaeth y maent yn ei ddarparu i blant a theuluoedd. Mae gan yr arweinwyr ddealltwriaeth dda o gryfderau'r gwasanaeth a'r meysydd i'w gwella. Mae cynlluniau ar waith i ddatblygu'r gwasanaeth sy'n mynd i'r afael â gofynion cenedlaethol a'r heriau sy'n wynebu sefydliadau yn y sector cyhoeddus.

1.2 Fel llawer o awdurdodau lleol ledled Cymru, mae'r Cyngor yn wynebu heriau mewn perthynas â darparu a chyflenwi gofal cymdeithasol. Mae'r rhan fwyaf o'r heriau hyn o ganlyniad i bwysau sy'n deillio o'r adferiad cenedlaethol ar ôl y pandemig, gan gynnwys mwy o alw am wasanaethau a'r anghenion cynyddol gymhleth sydd gan bobl. Mae'r pwysau hyn yn dod i'r amlwg ar adeg pan fo awdurdodau lleol yn wynebu pwysau cyllidebol sylweddol. Fel awdurdod ffiniol, dywed y Cyngor bod ei agosrwydd daearyddol at siroedd yn Lloegr yn effeithio ar lefelau recriwtio a chadw staff a digonolrwydd y farchnad.

1.3 Mae recriwtio a chadw staff yn flaenoriaeth barhaus i'r awdurdod lleol ac mae marchnad gystadleuol yn genedlaethol ac yn rhanbarthol yn peri heriau parhaus o ran cydnerthedd y gweithlu. Mae gan y Cyngor gynllun i leihau'r defnydd o staff asiantaeth ac mae sefydlogrwydd y gweithlu wedi gwella yn 2024. Mae uwch-arweinwyr, rheolwyr a gwleidyddion yn cydnabod bod angen gwella cydnerthedd y gweithlu gwasanaethau plant. Caiff staff eu penodi'n rhagweithiol drwy gynlluniau secondiad (datblygu eich staff eich hun) a threfniadau recriwtio rhyngwladol. Mae adnoddau ychwanegol wedi cael eu darparu hefyd ar gyfer swyddi sy'n ceisio helpu i ddatblygu gwasanaethau, gwella goruchwyliaeth a sicrhau ansawdd.

1.4 Nodwyd pryderon mewn perthynas â chydymffurfiaeth yr awdurdod lleol â gofynion statudol ym maes diogelu plant. Roedd y pryderon hyn yn ymwneud yn benodol ag amseroldeb ymweliadau amddiffyn plant a chynadleddau achos amddiffyn plant.

1.5 Yn hanesyddol roedd gan yr awdurdod lleol boblogaeth uchel o blant sy'n derbyn gofal ac mae cynlluniau gwasanaeth wedi canolbwyntio ar leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal gan y Cyngor mewn ffordd ddiogel.

1.6 Mae gwelliannau wedi cael eu gwneud drwy ddatblygu gwasanaethau cyn statudol ac ataliol. Er enghraifft, mae gwasanaethau ar waith i helpu i adsefydlu plant ar ôl iddynt dreulio cyfnodau'n derbyn gofal; i ddarparu cymorth cyfannol tymor canolig i deuluoedd sy'n gwneud newid cynaliadwy; ac ymatebion therapiwtig i rieni a gofalwyr sy'n cefnogi plant â thrawma. Mae panel GOFOD Lles[1] yn fforwm da i rannu gwybodaeth ac yn cynnig llwybr clir at wasanaethau ataliol.

1.7 Mae'r awdurdod lleol yn gweithio tuag at uchelgeisiau agenda 'dileu' Llywodraeth Cymru[2]. Mae arweinwyr wedi goruchwylio newid sylweddol i'r gwasanaeth ac wedi datblygu amrywiaeth o swyddi a thimau i gyflawni'r nod hwn. Mae'r Tîm Ailgysylltu Teuluoedd yn asesu anghenion plant yn erbyn y gorchymyn llys a'r cynllun gofal a arweiniodd at eu rhoi mewn gofal, gan eu helpu i adsefydlu gartref neu gamu i lawr o leoliad lle y bo'n briodol. Mae'r Tîm Datrys i Deuluoedd yn cynnig cymorth cyfannol i deuluoedd sy'n rhan o achosion cyfreithiol preifat a chyhoeddus. Mae'r Gwasanaeth 14+ newydd yn canolbwyntio'n well ar gynllunio llwybrau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys ystyried diddymu gorchmynion gofal mewn achosion lle gall plant fod yn sefydlog gartref. Mae hyn yn lleihau'r risg y bydd plant yn derbyn gofal ac yn cefnogi cyfleoedd i gynnig sefydlogrwydd iddynt o fewn eu teulu.

1.8 Ochr yn ochr â'r datblygiadau hyn, mae'r awdurdod lleol wedi gorffen ailstrwythuro gwasanaethau i blant a theuluoedd y mae angen cymorth ac amddiffyniad arnynt, ac mae'r arweinwyr yn bwriadu adolygu'r Tîm Asesu a Chymorth Cynnar. Mae'r awdurdod lleol yn datblygu model ymarfer (Cadw Plant yn Ddiogel), safonau ymarfer a fframwaith sicrhau ansawdd newydd. Mae angen cynnydd cynaliadwy er mwyn gwella cydymffurfiaeth â gofynion statudol a chreu cysondeb o ran dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar gryfderau. Bydd defnyddio prosesau sicrhau ansawdd effeithiol yn hanfodol yn hyn o beth.

1.9 Dywed bron pob aelod o'r staff eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan eu cydweithwyr a'u rheolwyr i wneud eu gwaith. Byddai'r rhan fwyaf o'r staff yn argymell gweithio i'r Cyngor. Ategir hyn gan ethos 'un gwasanaeth a thîm' lle dywedir bod ymarferwyr, rheolwyr ac arweinwyr yn llawn cymhelliant, yn hygyrch ac yn gefnogol. O ystyried yr heriau cyd-destunol uchod, rhaid rhoi clod

[1] GOFOD Lles Sir Fynwy :: Iachach Gyda'n Gilydd (cymru.nhs.uk)
[2] Dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal: briffio Ionawr 2023 [HTML] | LLYW.CYMRU

i'r arweinwyr bod y staff wedi cael eu cefnogi drwy'r newidiadau hyn a'u bod wedi nodi'r cryfderau hyn.

1.10 Mae ansawdd y gwasanaethau a'r ymarfer gwaith cymdeithasol a gynigir i blant a theuluoedd yn amrywio. Mae angen gwneud gwelliannau penodol mewn perthynas â rhai ymyriadau amddiffyn plant, fel bod ymarfer yn cydymffurfio â Gweithdrefnau Diogelu Cymru[3]. Dylai'r awdurdod lleol hefyd sicrhau bod ymarfer seiliedig ar gryfderau a phrosesau sicrhau ansawdd yn cael eu cymhwyso mewn ffordd gyson.

### Canfyddiadau allweddol a thystiolaeth

Cyflwynir canfyddiadau allweddol ac enghreifftiau o dystiolaeth isod yn unol â phedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

## 2. Pobl – llais a rheolaeth

### Cryfderau

2.1 Gall pobl gysylltu â gwasanaethau cymdeithasol yn hawdd a chânt eu trin ag urddas a pharch. Mae'r mwyafrif o bobl yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt a'u bod yn cael gwybodaeth, cyngor a chymorth defnyddiol. Mae'r arweinwyr yn deall anghenion y bobl yn eu hardal ac yn cynnig cyfeiriad strategol da i ddiwallu'r anghenion hynny a'r galw am wasanaeth.

2.2 Mae Comisiynydd Plant Cymru yn disgrifio Strategaeth Cyfranogiad y Cyngor fel **ymarfer cadarnhaol** ac yn *'enghraifft ardderchog o sut mae gwasanaethau'n gwreiddio egwyddor cyfranogiad yn eu ffyrdd o weithio'*[4]. Mae disgwyl i wasanaethau ataliol a statudol gael eu cynllun cyfranogiad eu hunain gyda chanlyniadau'n cael eu monitro gan uwch-reolwyr. Mae timau'n datblygu systemau ar gyfer ceisio adborth a chydgynhyrchu gwasanaethau gyda phobl. Yn yr enghreifftiau gorau, mae hyn wedi arwain at wella adnoddau i bobl sy'n defnyddio canolfannau cymunedol a chynhwysiant i grwpiau amrywiol (cofrestru pobl ifanc sy'n gadael gofal i bleidleisio a darparu gwasanaethau diwylliannol-briodol i blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches).

2.3 Mae pwyslais ar roi cyfle i blant gael llais a rhannu eu profiadau. Dywedodd plant sy'n derbyn gofal fod ganddynt weithwyr cymdeithasol sy'n gwrando arnynt ac yn ystyried eu safbwyntiau. Mewn achosion lle nad oedd ganddynt gydberthynas dda â'u gweithiwr cymdeithasol, trosiant staff a heriau o ran recriwtio a chadw staff oedd yn gyfrifol am hyn bron bob amser.

---

[3] Diogelu Cymru

[4] Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant ar gyfer Gofal Cymdeithasol yng Nghymru - Comisiynydd Plant Cymru (complantcymru.org.uk)

2.4 Mae gwasanaethau cymorth i deuluoedd a gwasanaethau ataliol yn gweithio'n agos gyda gweithwyr cymdeithasol er mwyn sicrhau bod teuluoedd yn cael budd o ymyriadau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Caiff safbwyntiau pobl eu cofnodi drwy gofnodion achos cyffredinol. Defnyddir rhai cronolegau er mwyn helpu i ddeall niwed blaenorol. Dywedodd rhieni a gofalwyr wrthym am enghreifftiau o gydberthnasau rhwng ymarferwyr a theuluoedd sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

2.5 Mae'r rhan fwyaf o ofalwyr maeth yn dweud eu bod yn cael gwybodaeth o ansawdd da pan gaiff plant eu rhoi yn eu gofal a chymorth amserol pan fo argyfwng. Yn ogystal, maent yn cael ymatebion cadarnhaol i unrhyw bryderon y maent yn eu huwchgyfeirio at y gweithiwr cymdeithasol sy'n eu goruchwylio neu Swyddog Adolygu Annibynnol y plentyn.

2.6 Mae'r awdurdod lleol yn ystyried hawliau plant i gael cynnig eiriolaeth broffesiynol annibynnol. Mae cysylltiadau da rhwng darparwr y gwasanaethau eirioli a gomisiynwyd, yr arweinwyr, a'r Tîm Diogelu a Sicrhau Ansawdd. Mae achosion lle mae rhieni a phlant yn cael budd o wasanaeth eirioli ffurfiol, a chaiff atgyfeiriadau sy'n briodol i'w hoedran eu gwneud fel mater o drefn ar gyfer plant sydd wedi'u henwi ar y gofrestr amddiffyn plant.

2.7 Mae prosiect Healing Hands yn cefnogi ac yn uwchsgilio staff sydd ag anghenion cymorth ychwanegol ac anghenion llesiant emosiynol. Mae'r rheolwyr yn darparu mannau myfyriol i gefnogi cydnerthedd y gweithlu a morâl y tîm. Mae'r uwch-arweinwyr a'r rheolwyr yn parhau i ganolbwyntio'n briodol ar recriwtio a chadw staff yn y gweithlu. Mae cynllun gweithlu ar waith ac mae arwyddion diweddar yn awgrymu ei fod yn helpu i wella sefydlogrwydd y gweithlu.

**Meysydd i'w gwella**

2.8 Ychydig o dystiolaeth sydd i gadarnhau bod plant wedi cael budd o waith uniongyrchol sy'n llywio gwaith asesu a chynllunio gofal parhaus. Mae cyfraniadau uniongyrchol plant yn bwysig er mwyn helpu i wneud penderfyniadau, yn enwedig pan fo hyn yn ymwneud â ph'un a ydynt wynebu risg o brofi niwed. **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod asesiadau a chynlluniau gofal yn cynnwys llais plant yn gyson.**

2.9 Nid oes digon o dystiolaeth o lais oedolion arwyddocaol a'u cryfderau mewn asesiadau amddiffyn plant ac ymholiadau adran 47. Mae'n bwysig bod gwasanaethau plant yn gweithio i gynnwys rhieni mewn ffordd gyson drwy gydol y broses ddiogelu, ar yr amod bod hyn er lles pennaf y plentyn. Byddai

modd gwella eiriolaeth anffurfiol hefyd drwy roi pwyslais penodol ar rôl y teulu estynedig wrth hyrwyddo a chreu diogelwch i blant. **Dylai llais a dewis rhieni a rhwydweithiau cymorth gael eu cryfhau mewn asesiadau a chynlluniau.**

2.10 Mae'r arweinwyr yn gweithio gyda'r staff i ddatblygu a threialu dulliau goruchwylio newydd. Mae amlder sesiynau goruchwylio yn anghyson i rai aelodau o'r staff a gall ansawdd y sesiynau goruchwylio amrywio hefyd. Gellid datblygu hyn ymhellach drwy gytuno'n gyson ar gamau CAMPUS[5] a dangos tystiolaeth o ddull gweithredu myfyriol sy'n seiliedig ar gryfderau. Yn yr un modd, byddai'n fuddiol i rai aelodau o'r staff pe bai mwy o bwyslais yn cael ei roi ar lesiant y staff a'u datblygiad proffesiynol. **Dylai'r arweinwyr sicrhau safonau cyson ar gyfer goruchwyliaeth a chymorth llesiant.**

2.11 Mae cymorth gan weithwyr asiantaeth yn hanfodol er mwyn cau'r bylchau mewn meysydd gwasanaeth. Mae hyn yn arbennig o berthnasol wrth gomisiynu cadeiryddion cynadleddau amddiffyn plant dros dro. Mae'r swyddi hyn yn darparu cymorth parhaus i deuluoedd a her i ymarferwyr lle y bo'n briodol. Gall dull gweithredu cadeiryddion cynadleddau sy'n dod o asiantaethau a'r awdurdod lleol amrywio. **Dylai'r arweinwyr weithio gyda phob aelod o'r staff i greu dulliau ymarfer cyson.**

2.12 Saesneg yw iaith yr awdurdod lleol yn bennaf ac mae am sicrhau cynnydd o 8.986% yn nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn 2027. Noda'r Cyngor fod cyfradd gydymffurfio o 100% â'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg. Dim ond un aelod o staff yn y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd sy'n siarad Cymraeg. **Dylai'r arweinwyr barhau i ddatblygu nifer digonol o siaradwyr Cymraeg i ddiwallu anghenion pobl sy'n siarad Cymraeg.**

## 3. Atal

### Cryfderau

3.1 Caiff ymarfer ei ategu gan ddull ataliol a cheir dealltwriaeth o wybodaeth, cyngor a chymorth ar sawl lefel yn y sefydliad. Mae'r awdurdod lleol yn mabwysiadu dull gweithredu seiliedig ar le[6] ac mae InFACT (Tîm Teuluoedd a Chymunedau Ynghyd Integredig) yn darparu gwasanaeth 'llinell gyngor' i deuluoedd, fel pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer ymyriadau cynnar.

---

[5] Fframwaith arferion gorau ar gyfer pennu nodau yw CAMPUS. Dylai nod CAMPUS anelu at egwyddorion Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol.

[6] Dulliau seiliedig ar le o ymgysylltu a chefnogi cymunedol | LLYW.CYMRU

3.2 Mae'r Tîm Asesu a Chymorth Cynnar wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n ceisio gwybodaeth, cyngor a chymorth. Er gwaethaf hyn, mae'r ymarferwyr yn gwneud penderfyniadau ar gyfer pob cyswllt sy'n dod i law o fewn un diwrnod gwaith a chaiff pob asesiad ei gynnal o fewn yr amserlenni statudol. Dywed yr awdurdod lleol fod pob cynllun gofal a chymorth yn cael ei gwblhau o fewn deg diwrnod gwaith ar ôl i asesiad sengl y Tîm Asesu a Chymorth Cynnar ddod i ben.

3.3 Mae dull gweithredu cydlynol ar waith mewn perthynas â chymorth cynnar ac atal er mwyn cefnogi plant a theuluoedd. Mae hyn yn galluogi teuluoedd i gael cymorth a darparu'r diogelwch, y fagwraeth a'r gofal sydd eu hangen ar eu plant. Mae gwasanaethau wedi cael eu datblygu sy'n gwella'r cymorth sydd ar gael i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

3.4 Roedd rhaglen trawsnewid CAMHS wedi helpu i ddatblygu Pwynt Mynediad Unigol ar gyfer Llesiant Emosiynol Plant (GOFOD). Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n unol ag amcanion cenedlaethol ac egwyddor Dim Drws Anghywir Fframwaith NYTH[7]. Mae'r **ymarfer cadarnhaol** hwn yn helpu plant, pobl ifanc a theuluoedd i gael y gwasanaeth cywir ar yr adeg gywir.

3.5 Mae amrywiaeth helaeth o wasanaethau ataliol a therapiwtig ar gael drwy GOFOD Lles. Mae'r ymyriadau argyfwng a'r dulliau gweithredu ystyriol o drawma/seicolegol sydd ar gael yn gryfder penodol. Mae hyn yn cynnwys cymorth cwnsela mewn ysgolion, cwnselwyr mewnol, therapyddion chwarae, therapi teulu, gweithwyr llesiant, a seicoleg glinigol. Yn fwy diweddar, ehangodd y Gwasanaeth Amser i Deuluoedd ei wasanaethau, i gynnwys cymorth y tu allan i oriau i deuluoedd mewn argyfwng. Mewn rhai achosion, mae hyn yn cynnwys cymorth 24/7 i deuluoedd, a chlywsom am enghreifftiau da lle roedd y cymorth hwn yn cadw plant yn ddiogel wrth i benderfyniadau gael eu gwneud am ddiogelu. Roedd Gofalwyr Ifanc Sir Fynwy hefyd yn darparu cymorth un i un a chymorth grŵp i 236 o ofalwyr ifanc a 130 o berthnasau.

### Meysydd i'w gwella

3.6 Nid oes gan asiantaethau partner gyd-ddealltwriaeth o sut i ymateb i anghenion a niwed sy'n dod i'r amlwg. Nid oes dogfen amlasiantaeth ar gael ar hyn o bryd i atgyfnerthu cysondeb. Gall hyn effeithio ar amseroldeb a phriodoldeb ymatebion, oherwydd gall gwasanaethau plant gael eu llethu gan nifer uchel o gysylltiadau. **Dylai'r arweinwyr barhau i weithio gyda phartneriaid i ddatblygu dull gweithredu rhanbarthol o ran trothwy ac angen.**

[7] Nest Nyth - Gwentrpb

3.7 Mae'r cynnydd mewn galw o fewn y Tîm Asesu a Chymorth Cynnar wedi effeithio ar gydnerthedd y gwasanaeth. Mae'r staff wedi'u hyfforddi i gyfathrebu â phobl mewn ffordd gydweithredol, a ddylai helpu i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar y cyd a'u bod yn gymesur. Fodd bynnag, mae pwysau ar wasanaethau yn arwain at ddulliau asesu ac ymarfer anghyson. **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau nad yw gofynion parhaus y gwaith hwn yn tanseilio ansawdd yr ymarfer a ddarperir i bobl.** Mae hyn yn bwysig gan y gall ymyriadau o fewn y Tîm Asesu a Chymorth Cynnar bennu'r dôn ar gyfer asesiadau a chynlluniau o fewn y Timau Amddiffyn a Chymorth i Deuluoedd. Yn yr un modd, bydd ymarfer seiliedig ar gryfderau a phenderfyniadau cymesur o fewn y Tîm Asesu a Chymorth Cynnar yn lleihau'r galw a'r angen am ail asesiadau o fewn y Timau Amddiffyn a Chymorth i Deuluoedd.

3.8 Dylai cryfderau gael eu nodi a'u cydnabod yn gynt fel rhan o brosesau amddiffyn plant. Mae'r arweinwyr wedi ail-lunio gwasanaethau ac wedi cyfuno'r timau llysoedd ac amddiffyn yn ddiweddar er mwyn cefnogi dulliau ataliol ar gam cynharach ar daith plentyn drwy ofal a chymorth. **Dylai'r arweinwyr barhau i oruchwylio a monitro bod ymarfer seiliedig ar gryfderau yn cael ei ddefnyddio'n gyson yn y gwasanaeth.**

## 4. Llesiant

### Cryfderau

4.1 Yn gyffredinol, ceir dealltwriaeth o ddiogelu ar sawl lefel yn y sefydliad. Mae gan yr awdurdod lleol bolisi lleol ar gyfer *Cadw Plant yn Ddiogel* o fewn y broses amddiffyn plant. Mae hyn yn helpu staff mewnol i feithrin dealltwriaeth glir o ganllawiau a safonau lleol. Mae'n cynnwys trefniadau i reolwyr ac arweinwyr fod yn ymwybodol o brofiad bywyd plant.

4.2 Mae ymarferwyr yn canolbwyntio ar ddatblygu cydberthnasau cefnogol a llawn ymddiriedaeth â phobl. Mae'r Tîm Asesu a Chymorth Cynnar yn cynnal sgyrsiau amserol ar yr hyn sy'n bwysig er mwyn nodi risgiau a chamau gweithredu. Cynhelir y rhan fwyaf o drafodaethau strategaeth ac ymholiadau adran 47 mewn ffordd amserol ac maent yn cynnwys yr asiantaethau cywir, sy'n cyfrannu'n dda at benderfyniadau.

4.3 O fewn yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, mae'r arweinwyr yn darparu her adeiladol er mwyn helpu i ystyried pob opsiwn. Mae gweithwyr cymdeithasol yn llunio cynlluniau asesu cyson sy'n helpu i ddadansoddi'r risgiau craidd sy'n ymwneud â'r trothwy, yr effaith ar y plentyn, a gallu'r rhiant/rhieni i newid. Mae'r **ymarfer cadarnhaol** hwn yn cefnogi gwaith dadansoddi cadarn a

phenderfyniadau cymesur ar y camau olaf ar daith plentyn drwy brosesau diogelu.

4.4 Mae'r awdurdod lleol yn datblygu cyfleoedd lleoli ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ar lefel leol a rhanbarthol er mwyn sicrhau eu bod yn byw mewn lleoliadau diogel a phriodol. Mae hyn yn cynnwys ymdrechion i gynyddu nifer y gofalwyr mewnol, a thrwy gynyddu'r opsiynau llety preswyl a llety â chymorth sydd ar gael yn y sir.

4.5 Cafodd cynllun pontio ailgartrefu cyflym ei gymeradwyo gan Gabinet y Cyngor eleni. Mae hyn yn cynnwys cynllun gweithredu manwl sy'n nodi sut y bydd y Cyngor yn mynd i'r afael â'r heriau y mae'n eu hwynebu o ran digartrefedd a llety i bobl ddigartref. Mae panel digartrefedd pobl ifanc wedi cael ei sefydlu a bydd hyn yn helpu i dargedu adnoddau at y mannau lle gallant gael yr effaith fwyaf.

4.6 Nid oes digon o ofalwyr maeth i ateb y galw ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru bron. Mae hyn yn arwain at ddibyniaeth ormodol ar ddarparwyr preifat. Er mwyn hyrwyddo camau i recriwtio a chadw gofalwyr maeth, mae'r awdurdod lleol yn gweithio ar lefel leol a rhanbarthol i sicrhau bod ei gynnig parhaus, o safbwynt ariannol ac ymarferol, mor ddeniadol â phosibl. Mae'r awdurdod lleol yn gweithio gyda Maethu Cymru i gynnal ymgyrchoedd gweithredol a chynyddu nifer y gofalwyr maeth mewnol i ddarparu lleoliadau. Cafodd dau gartref plant eu comisiynu y llynedd drwy fodelau partneriaeth ac mae un o'r rhain yn cynnig darpariaeth arbenigol i bobl ifanc ag anghenion cymhleth. Mae mwy o gyfleoedd i ddatblygu lleoliadau llety preswyl a llety â chymorth wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol.

**Meysydd i'w gwella**

4.7 Mae cyfraddau cydymffurfiaeth ag ymweliadau statudol â phlant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant wedi amrywio o 58.8% i 67.2% yn ystod y flwyddyn hyd yma. **Rhaid i'r awdurdod lleol gydymffurfio â'r safonau statudol ar gyfer ymweld â phlant sydd wedi'u henwi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Dylai'r arweinwyr weithio gyda staff gweithredol i ddeall a datrys y rheswm cyd-destunol dros unrhyw heriau o ran cofnodi.**

4.8 Ym maes amddiffyn plant, mae'r awdurdod lleol yn mabwysiadu dull gofalus o reoli risgiau a thystiolaeth bod y rhiant/rhieni wedi gwneud newidiadau. Byddai modd gwella ymarfer drwy ddefnyddio dulliau sy'n seiliedig ar gryfderau ac yn canolbwyntio ar atebion yn gyson. **Dylai'r arweinwyr sicrhau bod ymarferwyr yn gweithio'n gyson gyda rhanddeiliaid ac oedolion arwyddocaol i rannu gwybodaeth am risgiau a hyrwyddo penderfyniadau cymesur.**

4.9 Nid yw asesiadau a gynhelir y tu allan i'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn ymdrin â'r risgiau a'r canlyniadau gofynnol mewn ffordd gyson i leihau niwed a hybu llesiant. Gall ymarferwyr golli ffocws ar y materion craidd i'w hasesu. Byddai modd gwella ansawdd yr asesiadau drwy ganolbwyntio mwy ar risgiau, cryfderau, effaith a chanlyniadau. **Dylai'r arweinwyr oruchwylio ansawdd yr asesiadau i raddau mwy, er mwyn sicrhau eu bod yn canolbwyntio'n gyson ar b'un a yw plentyn yn dioddef niwed sylweddol neu mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol.**

4.10 Mae hyn yn berthnasol hefyd i gadeiryddion cynadleddau amddiffyn plant. Prif rôl y cadeiryddion hyn yw sicrhau bod y gynhadledd yn canolbwyntio ar y plentyn a bod anghenion amddiffyn gofal a chymorth plant yn cael eu diwallu. Rhestr o wasanaethau yw cynlluniau amlinellol yn bennaf. Gan y caiff y cynllun amddiffyn gofal a chymorth amlinellol ei ddatblygu drwy grwpiau craidd, gall y ffocws ar risg a diogelwch leihau eto, gyda chofnodion yn canolbwyntio'n fras ar ddiweddariadau gwasanaeth a chydymffurfiaeth y rhiant/rhieni. **Dylai'r arweinwyr oruchwylio ansawdd y cynlluniau i raddau mwy, er mwyn sicrhau eu bod yn canolbwyntio'n gyson ar risgiau, cryfderau, yr effaith ar y plant, a'r canlyniadau i'w cyflawni.**

4.11 Mae'r Tîm Diogelu a Sicrhau Ansawdd yn adolygu cynlluniau gofal a chymorth plant sy'n derbyn gofal a chynlluniau amddiffyn gofal a chymorth plant sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Mae gan y Tîm ddau aelod o staff ac mae cymorth corfforaethol wedi cael ei ddarparu i gyflenwi ar gyfer un swydd wag. Ar hyn o bryd, mae'r adnodd hwn yn adolygu cynlluniau 201  o blant sy'n derbyn gofal a 115 o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Mae llwyth gwaith y gwasanaeth yn uchel iawn ac mae hyn yn effeithio ar ansawdd y gwaith y gall y swyddogion adolygu ei wneud. Nid oes digon o gydnerthedd yn Nhîm Diogelu a Sicrhau Ansawdd yr awdurdod lleol ar hyn o bryd. **Dylai'r arweinwyr barhau i weithio i wella digonolrwydd er mwyn cyflawni safonau y cytunwyd arnynt yn gyson.** Er gwaethaf hyn, caiff bron pob adolygiad ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ei gynnal o fewn amserlenni statudol ac yn ôl gofalwyr maeth, mae barn y plentyn yn cael sylw blaenllaw fel rhan o'r broses adolygu. **Dylai'r arweinwyr barhau i ddatblygu digonolrwydd er mwyn symud y tu hwnt i gydymffurfiaeth a gweithio tuag at uchelgeisiau'r Safonau Ymarfer ar gyfer Swyddogion Adolygu Annibynnol[8].**

4.12 Ni chaiff gwaith papur ei gwblhau a'i rannu â rhieni a rhanddeiliaid cyn cynhadledd fel mater o drefn. Nid yw perthnasau arwyddocaol bob amser yn cael cyfle i fynd i gyfarfodydd. Nid yw cadeiryddion cynadleddau bob amser yn

[8] IRO-Exec-Summary_W.pdf (afkacymru.org.uk)

siarad â'r rhieni cyn cynhadledd. Mae cynadleddau amddiffyn plant wedi cael eu hoedi am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys oedi gyda gwaith papur, anawsterau i sicrhau cworwm, a heriau'n ymwneud â'r gweithlu. **Rhaid i'r arweinwyr sicrhau bod ymarfer yn gwella ac yn bodloni amserlenni a gofynion Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn gyson.**

4.13 Mae'r rheolwyr a'r arweinwyr yn cael setiau data craidd y maent yn craffu arnynt fel rhan o glinig rheoli data. Ar hyn o bryd, nid yw systemau cofnodi data yn cefnogi'r broses hon mewn ffordd sy'n cynnig digon o ddilysrwydd. Er enghraifft, caiff llawer o asesiadau a chynlluniau eu cwblhau ar ddogfen Word y tu allan i system TG y cofnod gofal cymdeithasol sy'n arwain at anghysondeb o ran cymeradwyaeth a goruchwyliaeth. Mae problemau gyda'r system yn golygu nad oes modd cadw ymweliadau ar gronfa ddata'r awdurdod lleol. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu na all y rheolwyr fod yn gwbl hyderus bod ymweliadau, asesiadau a chynlluniau'n cael eu cwblhau mewn modd amserol. Mae'r arweinwyr wedi dweud bod datblygiadau i'r system wedi cael eu hoedi wrth i benderfyniadau gael eu gwneud ynghylch a ddylai'r awdurdod lleol ymuno â System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru. **Dylai'r awdurdod lleol barhau i weithio tuag at drefniadau interim a all roi sicrwydd i'r arweinwyr bod safonau statudol a lleol yn cael eu bodloni.**

4.14 Nid oes systemau digonol ar waith i sicrhau ansawdd, ac nid oes gan reolwyr na staff y Tîm Diogelu a Sicrhau Ansawdd y capasiti i gwblhau'r gweithgarwch hwn mewn ffordd gyson. Mae'r awdurdod lleol yn datblygu model ymarfer (*Cadw Plant yn Ddiogel*), safonau ymarfer a fframwaith sicrhau ansawdd newydd. I gefnogi'r gwelliant hwn, caiff tair swydd newydd eu creu er mwyn helpu i ddatblygu'r gwasanaeth a sicrhau ansawdd (rheolwr gwasanaeth arall, swyddog gweithredu, a chadeirydd cynhadledd arall). **Dylai'r arweinwyr sicrhau bod y datblygiadau hyn yn cael eu cwblhau mewn ffordd amserol, er mwyn sicrhau cysondeb rhwng timau a gwella meysydd ymarfer allweddol.**

## 5. Partneriaethau ac Integreiddio

### Cryfderau

5.1 Mae enghreifftiau da o wasanaethau atal yn gweithio mewn ffordd adeiladol gyda gweithwyr cymdeithasol i gefnogi llesiant teuluoedd sy'n cael gofal a chymorth. Mae hyn yn cynnwys **ymarfer cadarnhaol** lle gall gweithwyr cymdeithasol ymgynghori ag amrywiaeth o weithwyr proffesiynol, sy'n darparu safbwyntiau gwahanol ac yn helpu i ddatblygu darlun mwy cyfannol o anghenion y plentyn. Byddai modd rhannu gwybodaeth yn well â gwasanaethau

mewnol drwy gofnodi'r ymgyngoriadau a'r sesiynau myfyriol hyn mewn ffordd gyson.

5.2 Mae enghreifftiau da o wybodaeth yn cael ei rhannu rhwng asiantaethau wrth ddiogelu plant. Mae hyn yn arwain at gyfnewid gwybodaeth yn briodol fel rhan o ymholiadau diogelu a chynadleddau amddiffyn plant cychwynnol. Mae'n **ymarfer cadarnhaol** nodedig bod trafodaethau a chyfarfodydd strategaeth cychwynnol yn rhai amlasiantaeth i raddau helaeth, sy'n cyfoethogi'r broses rhannu gwybodaeth. Fel arfer, mae gwybodaeth hanesyddol a chyd-destunol berthnasol yn cael ei darparu yn ystod cynadleddau amddiffyn plant. Mae ysgolion yn adnabod eu disgyblion yn dda ac mae'n gadarnhaol gweld y cyfraniad a wneir gan staff ysgolion at gyfarfodydd diogelu pwysig.

5.3 Ar y cyfan, mae partneriaethau yn gwneud cynnydd tuag at integreiddio effeithiol, yn diwallu anghenion ac yn hyrwyddo llesiant yn unol â deddfwriaeth a disgwyliadau. Mae'r arweinwyr yn gweithio'n dda gyda phartneriaid ledled Gwent i ddatblygu ac arloesi, er mwyn gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth. Mae hyn yn cynnwys Panel GOFOD Lles, a mentrau rhanbarthol nodedig eraill a nodir isod.

5.4 Mae gwasanaeth cymorth Gwent4YP Platfform Gweithredu dros Blant yn darparu sesiynau cymorth cymheiriaid i unigolion a grwpiau a dywed 88% o bobl ifanc fod eu llesiant emosiynol wedi gwella o ganlyniad i'r sesiynau hyn. Mae prosiect Sgiliau Byw a gynhelir gan Gweithredu dros Blant yn helpu pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal i oresgyn eu profiadau a gwneud newidiadau yn eu bywydau. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi bod yn gweithio'n agos gydag arweinwyr clinigol, partneriaid a grwpiau strategol i sicrhau bod y Gronfa Gwella Niwroddatblygiadol yn cael ei defnyddio'n llawn. Fe'i defnyddiwyd i gynyddu sesiynau cymorth, capasiti asesu, cymorth ar ôl diagnosis, ac i lunio deunyddiau digidol ar gyfer unigolion a'u teuluoedd.

5.5 Mae darparwyr ac asiantaethau trydydd sector o'r farn bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n effeithiol rhwng y plentyn a'i deulu a'u hasiantaethau. Disgrifiodd un asiantaeth yr **ymarfer cadarnhaol** hwn gan nodi '*Monmouthshire have proven themselves to be considered, reflective and analytical in ensuring that our partnership support services are what is needed in this area. This partnership approach has allowed for a sustained, impactful and much valued service that has been able to evolve according to need and help many children and young people to get much needed permanency in their lives'.*

5.6 Mae panel MACE (Panel Amlasiantaethol Camfanteisio ar Blant) yn uchel ei barch ymhlith partneriaid ac mae'n blatfform effeithiol i rannu gwybodaeth am risgiau o niwed nad yw'n gysylltiedig â'r teulu.

**Meysydd i'w gwella**

5.7 Gall partneriaid wneud atgyfeiriadau amhriodol at y gwasanaethau plant. Mae hyn yn cynyddu galw ac yn effeithio ar allu'r gwasanaeth i ymateb. **Dylai'r arweinwyr weithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â'r mater hwn a sicrhau ymateb diogelu amserol. Dylai'r gwasanaethau plant gyflwyno gwybodaeth am ganlyniadau atgyfeiriadau i'r unigolyn a wnaeth yr atgyfeiriad cychwynnol yn gyson.**

5.8 Ni chaiff cynlluniau diogelu eu defnyddio i hyrwyddo canlyniadau i bobl. **Dylai'r arweinwyr wella systemau ar gyfer diweddaru a rhannu'r cynllun diogelu ag asiantaethau partner.** Bydd hyn yn helpu partneriaid i weithio'n gyson tuag at ganlyniadau y cytunwyd arnynt.

5.9 Mae angen gwella prosesau cyfathrebu a chydweithio amlasiantaethol mewn rhai meysydd allweddol. Er enghraifft, mae heriau wrth drefnu archwiliadau meddygol amddiffyn plant ac fel arfer, nid yw'r heddlu yn mynychu cyfarfodydd canlyniad strategaeth. Mae'r gwasanaethau plant wedi cyflwyno panel cyn-gynhadledd sy'n cyfarfod yn dilyn ymholiad adran 47. Nid yw gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan o blaid defnyddio'r trefniant un asiantaeth hwn yn lle cyfarfod canlyniad strategaeth amlasiantaeth. Er bod y panel yn cynnig cyfle ychwanegol i uwch-reolwyr gefnogi rhesymeg a phenderfyniadau, mae awgrym y gall y panel achosi rhywfaint o oedi rhwng diwedd ymholiad adran 47 a chynhadledd amddiffyn plant gychwynnol. **Dylai'r arweinwyr weithio gyda'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol i nodi ymarfer safonol, fel yr amlinellir yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru. Dylai'r uwch-reolwyr ar draws asiantaethau sicrhau hefyd fod trafodaeth gyson a rheolaidd er mwyn mynd i'r afael â heriau diogelu (strategol a gweithredol) lleol.**

## 6. Y Camau Nesaf

Mae AGC yn disgwyl i'r awdurdod lleol ystyried y meysydd i'w gwella a nodwyd a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r meysydd hyn a'u gwella. Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy ei gweithgarwch adolygu perfformiad parhaus gyda'r awdurdod lleol. Lle y bo'n berthnasol, rydym yn disgwyl i'r awdurdod lleol rannu'r arferion cadarnhaol a nodwyd ag awdurdodau lleol eraill, er mwyn rhannu'r gwersi a ddysgwyd a helpu i lywio gwelliant parhaus mewn gwasanaethau statudol ledled Cymru.

## 7. Methodoleg

7.1 Casglwyd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth arolygu drwy adolygu profiadau pobl, drwy edrych ar eu cofnodion gofal cymdeithasol a'u holrhain. Gwnaethom edrych ar 34 o gofnodion gofal cymdeithasol ac olrhain 6 ohonynt er mwyn deall profiad yr unigolyn yn fanylach.

7.2 Mae olrhain cofnod gofal cymdeithasol unigolyn yn cynnwys sgwrsio â'r person sy'n cael gwasanaethau gofal cymdeithasol, ei deulu neu ei ofalwyr, ei weithiwr allweddol, rheolwr y gweithiwr allweddol, a gweithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill.

7.3 Er mwyn sicrhau bod llais pobl yn ganolog i'n gwaith, ymgysylltodd AGC â 6 phlentyn sy'n derbyn gofal ac 8 gofalwr maeth yn ystod y cyfnod hysbysu. Cynhaliodd AGC gyfweliadau â gweithwyr yr awdurdod lleol a sefydliadau partner o asiantaethau statudol a thrydydd sector hefyd. O ganlyniad i'r uchod, llwyddodd AGC i ymgysylltu ag 81 o unigolion.

7.4 Yn ogystal, gwnaethom edrych ar ddogfennau ategol a anfonwyd at AGC at ddiben yr arolygiad, gan gynnwys canmoliaeth/cwynion a chofnodion goruchwylio staff.

Mae ein Hysbysiad Preifatrwydd ar gael yn https://www.arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol

## 8. Y Gymraeg

Mae AGC yn ymrwymedig i ddarparu cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn ystod ein gweithgarwch ag awdurdodau lleol. Nid oedd angen y cynnig rhagweithiol ar yr achlysur hwn, gan nad oedd y bobl a oedd yn cymryd rhan yn dymuno cyfrannu at y arolygiad hwn yn Gymraeg.

## 9. Cydnabyddiaethau

Hoffai AGC ddiolch i'r staff, y partneriaid a'r bobl a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr arolygiad hwn

## 10. Rhestr termau

**Rhaid** - Ystyrir bod angen gwella er mwyn i'r awdurdod lleol gyflawni dyletswydd a nodir mewn deddfwriaeth, rheoliad neu god ymarfer. Nid yw'r awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau statudol ar hyn o bryd a rhaid iddo weithredu.

**Dylai -** Bydd gwelliant yn cynnig gwasanaeth gwell a/neu ganlyniadau gwell i'r bobl a/neu eu gofalwr. Nid yw'n cyfateb i fethiant i gyflawni dyletswydd statudol ar hyn o bryd; ond heb

gymryd camau addas, mae risg y gallai'r awdurdod lleol fethu â chyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau cyfreithiol yn y dyfodol.

**Ymarfer cadarnhaol** - Meysydd o gryfder a nodwyd yn yr awdurdod lleol. Mae'n ymwneud ag ymarfer yr ystyrir ei fod yn arloesol a/neu sy'n arwain yn gyson at ganlyniadau cadarnhaol i bobl sy'n cael gwasanaethau statudol.

**Atal ac Ymyrryd yn Gynnar** - Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at sicrhau bod cymorth ar gael i atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu, a gwella'r broses o sicrhau llesiant unigol a chyffredinol. Mae'r egwyddor yn canolbwyntio ar gynyddu gwasanaethau ataliol mewn cymunedau er mwyn sicrhau bod cyn lleied o anghenion critigol â phosibl i'w huwchgyfeirio.

**Llais a Rheolaeth** - Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at roi unigolion a'u hanghenion wrth wraidd eu gofal a'u cymorth, a rhoi llais a rheolaeth iddynt mewn perthynas â'r canlyniadau a all eu helpu i sicrhau llesiant ac i gyflawni'r pethau sydd bwysicaf iddynt.

**Llesiant -** Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at sicrhau llesiant i bobl ym mhob rhan o'u bywydau. Mae llesiant yn golygu mwy na bod yn iach. Mae'n ymwneud â bod yn ddiogel ac yn hapus, cael dewis a chael y cymorth priodol, bod yn rhan o gymuned gadarn, bod â ffrindiau a chydberthnasau buddiol, a chael diddordebau, gwaith neu gyfleoedd dysgu. Mae'n ymwneud â helpu pobl i sicrhau eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth.

**Cydgynhyrchu** - Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at gynnwys pobl yn fwy wrth ddylunio a darparu eu gofal a'u cymorth. Mae'n golygu sicrhau bod sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda nhw a'u teulu, eu ffrindiau a'u gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cael y gofal a'r cymorth gorau.

**Gwaith amlasiantaethol** - Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at atgyfnerthu'r trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau gofal a chymorth er mwyn gwneud yn siŵr bod y mathau priodol o gymorth a gwasanaethau ar gael mewn cymunedau lleol i ddiwallu anghenion pobl. Mae crynodeb y Ddeddf yn nodi ei bod hi'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth.

**CAMPUS** - Fframwaith arferion gorau ar gyfer pennu nodau yw CAMPUS. Dylai nod CAMPUS anelu at egwyddorion Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol.

**Yr hyn sy'n bwysig** - Mae sgyrsiau am ‘Yr Hyn sy'n Bwysig’ yn galluogi gweithwyr proffesiynol i ddeall sefyllfa pobl, eu llesiant ar y pryd, a'r hyn y gellir ei wneud i'w helpu. Mae'n sgwrs gyfartal ac mae'n bwysig er mwyn helpu i sicrhau y caiff llais yr unigolyn neu'r gofalwr a'r ‘hyn sy'n bwysig’ iddynt eu clywed.

**Agenda dileu** - Fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, mae ymrwymiad clir i ‘ddileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal’.